YN ATEBOL I:	Is-bwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	11 Tachwedd 2021
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk
PWNC:	Deddf Trwyddedu 2003 Cais i amrywio Trwydded Eiddo bresennol The Cove, 17-19 Stryd y Dŵr, Y Rhyl Rhif y Cais 554418

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwynwyd cais i'r Awdurdod Trwyddedu i amrywio Trwydded Eiddo bresennol, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 34 Deddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â The Cove, 17-19 Stryd y Dŵr, Y Rhyl. O ganlyniad i'r ymgynghoriad angenrheidiol a'r Hysbysiad Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae gofyn i'r Is-Bwyllgor wneud penderfyniad am y cais, gan roi ystyriaeth i'r holl dystiolaeth/ffeithiau perthnasol.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais i amrywio trwydded eiddo bresennol. Mae'r sylwadau a gyflwynwyd yn ymwneud ag amcan Atal Niwsans Cyhoeddus y Ddeddf Trwyddedu.

2.2 Atgoffir yr aelodau bod yn rhaid gwneud unrhyw benderfyniad yn unol ag (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a, (ii) Canllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yng ngallu'r Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, a ble y mae Aelodau o'r farn bod materion wedi ymgysylltu ag un neu fwy o'r amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na chânt arfer disgresiwn

mewn unrhyw achos, dim ond oherwydd eu bod o'r farn ei bod yn ddymunol gwneud hynny, ac y dylid rhoi rheswm/rhesymau dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os ydynt yn ystyried gwyro o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau mewn unrhyw ffordd.

3.0 ARGYMHELLION

3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor

Rhaid i'r Is-bwyllgor, gan ystyried y sylwadau a wnaed, gymryd y camau (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gall yr Is-bwyllgor:

- Ganiatáu'r Cais fel yr ymgeisiwyd amdano,
- Gosod unrhyw amodau, i raddau y mae'r Awdurdod yn ei ystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu,
- Gwrthod y cais

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 16 Medi 2021, cyflwynwyd cais wedi'i gwblhau'n llawn i'r Awdurdod Trwyddedu i amrywio Trwydded Eiddo bresennol. Cyflwynwyd y cais gan Miss Abbie Elizabeth Nelson. Gweler gopi llawn o'r cais yn Atodiad A.

4.2 Mae'r eiddo yn cynnig newid eu horiau i agor rhwng 11:00 a 03:00 o ddydd Llun i ddydd Sul, gyda'r ddarpariaeth i Gyflenwi Alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar dir yr eiddo), ynghyd â darparu cerddoriaeth wedi'i recordio a cherddoriaeth fyw (ar dir yr eiddo yn unig).

4.3 Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud cais am ganiatâd i ddarparu'r canlynol:

GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG	**DIWRNODAU PERTHNASOL**	**AMSERO**	**AMSERI**
Cyflenwi Alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar dir yr eiddo)	Dydd Llun – Dydd Sul	11:00	03:00
Darparu Cerddoriaeth wedi'i recordio	Dydd Llun – Dydd Sul	11:00	03:00
Darparu Cerddoriaeth Fyw	Dydd Llun – Dydd Sul	11:00	02:00
Oriau agor yr eiddo	Dydd Llun – Dydd Sul	11:00	03:00

4.4 Ar hyn o bryd, mae'r eiddo wedi'i awdurdodi i ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy rhwng 11:00 a 03:00 ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn, felly mae'r cais i ymestyn yr oriau gweithredu yn berthnasol i ddydd Sul i ddydd Iau yn unig.Efallai yr hoffai'r Aelodau archwilio'r Drwydded Eiddo bresennol yn fanylach, mae wedi'i hatodi yn Atodiad B.

4.5 Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais pellach i newid yr amodau presennol yn ymwneud â Goruchwylwyr Drysau.

4.5.1 Mae'r drwydded bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf 2 Oruchwyliwr Drws fod ar ddyletswydd bob dydd Gwener a dydd Sadwrn, Gwyliau Banc, Noswyl Nadolig a Nos Galan o 21:00 tan amser cau a'r cwsmeriaid i gyd wedi gadael yr eiddo. Cyflogir yr unigolion hyn er mwyn rheoli mynediad ac ymadawiad cwsmeriaid a chynnal trefn yn yr eiddo yn unig.

4.5.2 Bob dydd Sul mae'n rhaid i o leiaf 2 Oruchwyliwr Drws fod ar ddyletswydd o 20:00 tan amser cau a'r cwsmeriaid wedi gadael yr eiddo.

4.5.3 Ar nosweithiau pan mae'r eiddo ar agor ar ôl hanner nos, mae'n rhaid i o leiaf 2 Oruchwyliwr Drws fod ar ddyletswydd tan amser cau a'r cwsmeriaid wedi gadael yr eiddo. Cyflogir yr unigolion hyn er mwyn rheoli mynediad ac ymadawiad cwsmeriaid a chynnal trefn yn yr eiddo yn unig.

4.5.4 Dymuna'r ymgeisydd i'r amodau uchod gael eu diwygio fel a ganlyn:

- Dydd Sul i ddydd Iau – 1 Goruchwyliwr Drws rhwng 21:00 a 03:00
- Dydd Gwener a dydd Sadwrn (a Gwyliau Banc / Digwyddiadau) – 2 Oruchwyliwr Drws rhwng 21:00 a 03:00.

4.5.5

Mae'r amodau presennol sy'n ymwneud â nifer y Goruchwylwyr Drws i'w gweld yn Atodiad B o fewn y Drwydded Eiddo bresennol (pwyntiau bwled 10, 11 a 12 ynglŷn â'r amodau sy'n gysylltiedig ag Atal Trosedd ac Anrhefn). Bydd pob amod arall sydd wedi'u hatodi i'r drwydded bresennol yn parhau.

4.6

<u>Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion</u>
Pan gyflwynir cais am drwydded eiddo, rhaid darparu copi llawn i bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Awdurdod yr Heddlu
- Awdurdod Tân
- Awdurdod Cynllunio

- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu
- Swyddfa Mewnfudo

4.6.1 Hysbysiad Cyhoeddus

Rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad mewn papur newydd lleol a gosod hysbysiad ar neu'n gyfagos i'r eiddo. Mae hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau'n ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.6.1.1 Sylwadau Perthnasol

Cyflwynwyd sylwadau, y mae'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad yn eu hystyried yn berthnasol, o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod:

4.6.1.2 Cyflwynwyd un sylw ysgrifenedig gan Barti â Chysylltiad gan ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus. Mae'r sylw yn ymwneud yn bennaf â'r posibilrwydd o aflonyddwch gan sŵn, gellir gweld manylion y sylwadau yn Atodiad C.

4.6.1.3 Wrth gyflwyno'r sylw, fe wnaeth y Parti â Chysylltiad hefyd atodi nifer o recordiadau a gymerwyd yn ei eiddo (a ddosbarthwyd i'r Aelodau cyn y Gwrandawiad):

Dyddiad y Recordiad	Amser y Recordiad
31 Gorffennaf 2021	20:52
29 Awst 2021	23:19
23 Medi 2021	21:16
25 Medi 2021	21:27

4.6.2 Wedi i'r sylw perthnasol gael ei gyflwyno, cysylltodd swyddogion gyda'r ymgeisydd â'r parti â chysylltiad er mwyn gweld a fyddai cyfryngu'n opsiwn.

4.7 Mae'n bwysig bod Aelodau'n nodi, wrth awgrymu'r opsiwn o gyfryngu neu drafod i'r ymgeiswyr a'r partïon â chysylltiad, bod swyddogion yn ofalus i bwysleisio na ddylai aelodau o'r cyhoedd deimlo rheidrwydd i gymryd rhan mewn cyfryngu. Yn yr un modd, ni ddylai ymgeiswyr deimlo dan bwysau i dderbyn newidiadau i'w rhaglen weithredu, os

ydynt yn teimlo ei fod yn fwy priodol i Aelodau wneud penderfyniad am y cais.

4.8 Yn yr achos hwn, roedd y ddau barti yn agored i'r posibilrwydd o gyfryngu ac mae'r broses yn parhau ar adeg paratoi'r adroddiad hwn. Os bydd unrhyw gynnydd, bydd swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn y Gwrandawiad.

4.9 Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Ystyriaethau Polisi
Mae'r sylwadau perthnasol yn ymgysylltu â'r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r Cais hwn, at y Canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.15 i 2.21**

4.10 Datganiad Polisi Trwyddedu

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r Cais hwn, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 3.3**

4.11 Yn olaf, atgoffir Aelodau hefyd, wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu, dylent hefyd ystyried -

- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sy'n gosod dyletswydd i atal/lleihau trosedd ac anrhefn yn yr ardal
- Rheolau cyfiawnder naturiol y gyfraith gyffredin
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

5.1 Mae'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn eu trafodaethau.

5.2 Mae Rhaglen Weithredu wedi'i chwblhau yn ofyniad ar gyfer Trwyddedau Eiddo newydd a rhai sydd wedi'u hamrywio. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnig nifer o amodau a gellir gweld y Rhaglen Weithredu arfaethedig fel rhan o'r cais (Adran M) yn Atodiad A.

5.3 Wrth ystyried y pryderon a godwyd gan y gwrthwynebydd, bydd yr Aelodau yn dymuno gofyn cwestiynau perthnasol i'r ymgeisydd (neu eu cynrychiolydd) er mwyn sicrhau eu bod yn bwriadu defnyddio dulliau priodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

5.4 Atgoffir Aelodau mai dim ond Aelodau o Is-bwyllgor all atodi unrhyw

ddiwygiadau i'r cais gwreiddiol at y Drwydded Eiddo h.y. amodau ychwanegol. Mater i'r Aelodau hefyd yw ystyried a ydynt o'r farn bod unrhyw amod(au) yn angenrheidiol ac yn briodol.

6.0 CRYNODEB

6.1 Dylai'r Aelodau ystyried Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn llawn, gan gyfeirio'n benodol at y meysydd hynny a amlygwyd yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau na ddylent wyro oddi wrth y Polisi oni bai bod tystiolaeth/ rheswm da dros wneud hynny.

6.2 Wrth ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan y Parti â Chysylltiad, bydd yn ofynnol i Aelodau benderfynu a ydynt yn berthnasol ac a fyddai caniatáu'r cais hwn fel y'i cyflwynir yn bodloni'r amcanion trwyddedu statudol.

6.3 Pe bai Aelodau o blaid caniatáu'r cais, mae'n bosib y byddant hefyd yn dymuno ystyried atodi'r amodau ychwanegol a gynigir gan yr ymgeisydd o fewn eu rhaglen weithredu arfaethedig i'r drwydded.